**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2**
**Legislation Committee No.2**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

24 Mawrth 2009

Annwyl Syr / Madam

**Ymgynghoriad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)**

Fel rhan o'r ystyriaeth Cyfnod 1, mae Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth mewn perthynas ag egwyddorion cyffredinol y *Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru).*

**Beth yw Mesur?**

Darn o ddeddfwriaeth a wneir gan y Cynulliad yw Mesur. Mae iddo effaith debyg i Ddeddf Seneddol. Gall y Cynulliad basio Mesurau ar unrhyw 'fater' a restrir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006. Mae'r Mesur arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) yn ymwneud â materion sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant; lles cymdeithasol; a chwaraeon a hamdden.

Tra bod Mesur yn mynd trwy'r Cynulliad, fe'i elwir yn 'Fesur arfaethedig'.

Mae pedwar cyfnod yn y broses ar gyfer ystyried Mesur arfaethedig. Yn ystod Cyfnod 1, mae'r pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig (gan gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar gan bartïon sydd â diddordeb a rhanddeiliaid) ac mae'r Cynulliad yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol hynny.

**Beth mae'r Mesur arfaethedig am gyflawni?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig yn datgan:

"Mae'r Mesur ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) yn gwneud darpariaeth statudol i fynd ati i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran tlodi plant, ac i fynd ati'n fuan i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer plant agored i niwed drwy ddwyn ymlaen ddeddfwriaeth i ddarparu mwy o gymorth i deuluoedd sydd, o bosibl, â phlant mewn perygl, a gorfodaeth reoleiddiol gryfach mewn lleoliadau plant."

**Ffôn / Tel: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

**Beth yw rôl y pwyllgor?**

Rôl Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a chyflwyno adroddiad arnynt. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

I ystyried :

i) yr angen am Fesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion penodol hyn:
- cyfrannu at ddileu tlodi plant
- darparu ar gyfer gwarchod plant a gofal dydd i blant o oedrannau penodol
- sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd, er mwyn darparu gwasanaethau i deuluoedd sydd â phlant sydd angen gofal arnynt, neu sy'n derbyn gofal, pan fo hyn yn gysylltiedig ag anghenion ar ran eu gofalwyr sy'n oedolion (fel dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol)
- sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant
- sicrhau bod plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol.

ii) a yw'r Mesur arfaethedig yn cyflawni ei amcanion datganedig

iii) y darpariaethau allweddol a nodir yn y Mesur arfaethedig ac a ydynt yn addas i gyflawni ei amcanion

iv) rhwystrau posibl i weithredu'r darpariaethau allweddol ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried

v) sylwadau rhanddeiliaid y bydd yn rhaid iddynt weithio o fewn y trefniadau newydd.

**Sut y gallwch chi helpu – y cwestiynau ymgynghorol**

Ceir manylion y Mesur arfaethedig a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/business-legislation-measures-cf.htm

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei waith o graffu ar y Mesur arfaethedig. Yn arbennig, byddai'n croesawu eich sylwadau ar y pwyntiau a restrir yn **Atodiad 1**.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig o'ch cyflwyniad i legislationoffice@wales.gsi.gov.uk a rhowch *Ymgynghoriad - y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd* fel pennawd i'r e-bost.

**Ffôn / Tel: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Sarah Sargent, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 1 Mai 2009. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y **broses ddeddfwriaethol** yn: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-legislation-guidance/bus-legislation-guidance-measures.htm


Wrth baratoi eich tystiolaeth, dylech ystyried y pwyntiau a ganlyn:

- dylai eich ymateb fod mor gryno â phosibl a dylai fynd i'r afael â'r materion sydd gerbron y pwyllgor. Defnyddiwch y pennawd uchod fel cyfeirnod i'ch ymateb
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel arfer yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd graffu arnynt ac efallai y bydd Aelodau'r Cynulliad yn eu gweld a'u trafod yn ystod cyfarfodydd pwyllgor hefyd. **Os nad ydych am i ni gyhoeddi eich ymateb neu'ch enw, mae'n bwysig eich bod yn nodi hyn yn glir wrth gyflwyno'ch tystiolaeth**
- nodwch a ydych yn ymateb ar ran sefydliad, neu fel unigolyn
- nodwch a fyddech yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg a byddwn yn ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ysgrifenedig yn ystod tymor y gwanwyn.

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch â Sarah Beasley, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8032 neu Sarah Sargent, y Dirprwy Glerc, ar 029 2089 8408.

Yn gywir



**Val Lloyd AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Ffôn / Tel: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**

**Atodiad 1**

## Y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru)

### Cwestiynau ymgynghori

1. A oes angen Mesur arfaethedig i gyflawni'r amcanion penodol a ganlyn:
    - cyfrannu at ddileu tlodi plant
    - darparu ar gyfer gwarchod plant a gofal dydd i blant
    - sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd, er mwyn darparu gwasanaethau i deuluoedd sydd â phlant sydd angen gofal arnynt, neu sy'n derbyn gofal, pan fo hyn yn gysylltiedig ag anghenion ar ran eu gofalwyr sy'n oedolion (fel dibyniaeth ar gyffuriau ac alcohol)
    - sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant

2. Sut y bydd y Mesur arfaethedig yn newid yr hyn y mae sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd a beth fydd effaith newidiadau o'r fath?

3. A yw adrannau'r Mesur arfaethedig yn briodol o ran cyflawni'r amcanion datganedig?

    Wrth ystyried y cwestiwn hwn, mae'n *bosibl* y byddwch am ystyried natur darpariaethau'r Mesur arfaethedig sy'n:

    (a) cyfrannu at ddileu tlodi plant (adrannau 1-12), yn enwedig mewn perthynas â:
    - y nodau eang i ddileu tlodi plant a pharatoi strategaethau (adrannau 1-5)
    - gwasanaethau i fynd i'r afael â thlodi plant (adrannau 6-9).

    (b) darparu mewn perthynas â gwarchod plant a gofal dydd i blant (adrannau 13-48), yn enwedig mewn perthynas â:
    - darpariaethau cofrestru (adrannau 13-27)
    - darpariaethau amddiffyn mewn argyfwng (adrannau 28-29)
    - darpariaethau diogelwch ac anghymwyso (adrannau 30-33)
    - darpariaethau arolygu (adrannau 34-35)
    - darpariaethau tramgwyddau a chosb (adrannau 38-43).

(c) sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd (adrannau 49-58), yn enwedig mewn perthynas â:

- timau (adrannau 49-52)
- byrddau (adrannau 53-54);
- adroddiadau blynyddol (adran 56).

(d) sicrhau cyfleoedd chwarae digonol i blant (adran 60)

(e) sicrhau bod plant yn cymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdodau lleol (adran 61).

4. Beth yw'r rhwystrau posibl o ran gweithredu darpariaethau'r Mesur arfaethedig (os oes rhai o gwbl) ac a yw'r Mesur arfaethedig yn eu hystyried?

Er enghraifft, a oes gallu i weithredu'r dyletswyddau newydd yn y Mesur arfaethedig drwy raglenni Cymorth a Dechrau'n Deg, sy'n bodoli eisoes, ac i gyflawni gwaith y timau integredig newydd ar gyfer cymorth i deuluoedd?

5. Beth yw goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i sefydliadau, os oes rhai o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried a ydych yn cytuno ag Adran 2 y Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a buddion gweithredu'r Mesur arfaethedig.

6. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar adrannau penodol o'r Mesur arfaethedig?

**Ffôn / Tel: 029 2089 8032**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: legislationoffice@wales.gsi.gov.uk**